

Panel Adolygu Arbenigol: Cyfarfod 8

Cofnodion y cyfarfod

Dyddiad: Dydd Llun 24 Ebrill 2023

Yn bresennol:

Cadeirydd: Yr Athro Suzanne Fitzpatrick (Prifysgol Heriot-Watt).

Aelodau: Liz Davies CB (Siambrau Garden Court), Yr Athro Peter Mackie (Prifysgol Caerdydd), Jennie Bibbings (Shelter Cymru), Katie Dalton (Cymorth Cymru), Jim McKirdle (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), Emily James (Cyngor Sir Penfro), Nazia Azad (Tai Pawb), Hannah Fisher (Llywodraeth Cymru), Huw Charles (Llywodraeth Cymru).

Hefyd yn bresennol: Jordan Brewer (Crisis), Abi Renshaw (Crisis), Debbie Thomas (Crisis), Anna Mann (Cyngor Conwy), Carl Spiller (Llywodraeth Cymru), David Rowlands (Tai Pawb).

Ymddiheuriadau: Matt Downie (Crisis), Angela Bowen (Cyngor Sir Gâr), Clarissa Corbisiero (Cartrefi Cymunedol Cymru), Sam Parry (Cyngor Conwy), Roger Middleton (Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhdy Cymru), Cerys Gage (Llywodraeth Cymru).

1. Croeso, cyflwyniadau, cofnodion a phapurau ychwanegol

Croesawodd y Cadeirydd gydweithwyr newydd ac aelodau'r Panel i wythfed cyfarfod y Panel Adolygu Arbenigol. Diolchwyd i'r Panel am baratoi a darllen y papurau cyn y cyfarfod.

Cofnodion cyfarfod 7: Derbyniwyd bod y cofnodion yn gywir.

2. Diweddariad gan Lywodraeth Cymru

Cyflwynodd HF ddiweddariad byr gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r gwaith yn ymwneud ag addasrwydd yn parhau. Disgwylir cyhoeddiad ffurfiol ynglŷn â chanfyddiadau'r ymgynghoriad ar Orchymyn Addasrwydd 2022 yn yr haf.

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau newydd ar leihau'r defnydd o lety dros dro yng Nghymru.

Mae data newydd yn cael eu casglu er mwyn deall pwy sydd mewn llety anaddas.

Mae gwaith yn parhau hefyd ar yr ymchwil i ddyraniadau. Diolchwyd i'r Panel am symud y cyfarfod dyraniadau i ddyddiad yn ddiweddarach ym mis Mehefin er mwyn cael mwy o amser i wneud yr ymchwil hwn.

Mae pum awdurdod lleol wedi cytuno i gymryd rhan yn yr ymchwil – Wrecsam, partneriaeth SARTH yng ngogledd Cymru, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot – yn cynrychioli dulliau dyrannu amrywiol. Cysylltir â phob landlord cymdeithasol cofrestredig ym mhob rhanbarth ac mae arolwg cenedlaethol dienw hefyd wedi'i ddsbarthu i bob awdurdod lleol a landlord cymdeithasol cofrestredig. Cyflwynir y canfyddiadau mewn digwyddiadau ar 7 Mehefin (rhanddeiliaid cenedlaethol) ac 8 Mehefin (y Panel).

Gofynnodd aelod o'r Panel pa ddata penodol sy'n cael eu casglu mewn cysylltiad â llety dros dro. Gallai data lleol ddarparu gwybodaeth am ganlyniadau iechyd ac addasrwydd. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru na fydd gwneud newidiadau sylweddol i'r dulliau casglu data yn dasg hawdd, ond mae ychwanegiadau ar gyfer coladu data yn cael eu hystyried.

Cytunodd y Panel i gofio am y rhwystrau sy'n wynebu'r rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig wrth ystyried cynllun Llywodraeth Cymru i leihau'r defnydd o lety dros dro. Rhaid cael cymorth ariannol priodol er mwyn cael llety addas lle nad oes opsiynau hirdymor ar gael. Nid oedd y Panel yn dymuno gweld eithriadau cysylltiad lleol yn arwain at gyflawni dyletswydd.

Aelod(au) y Panel	Cam Gweithredu	Amserlen
Hannah Fisher	Yn niweddariad Llywodraeth Cymru yn y cyfarfod nesaf, cynnwys diweddariadau ar y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> Dyddiad yn yr haf i gyflwyno canfyddiadau'r ymgynghoriad ar Orchymyn Addasrwydd 2022. Cynllunio ar gyfer canllawiau newydd ar leihau llety dros dro yng Nghymru. Sut y cesglir data ar lety dros dro ac a oes lle i awgrymiadau ynglŷn â beth i'w gofnodi. Cynnydd â gwaith dyraniadau. Llety dros dro ac addasrwydd cyn trafod y pynciau yn fanwl, gan gynnwys beth sy'n digwydd ar hyn o bryd a'r cynlluniau i wella ansawdd. 	Cyfarfod nesaf, 10.05.2023
Hannah Fisher	Rhannu'r adroddiad ar ddyraniadau gyda'r Panel.	Cyn y cyfarfod dyraniadau a throï allan yn niwedd mis Mehefin, dyddiad i'w gadarnhau
Hannah Fisher, Abi Renshaw	Rhannu gyda'r Panel y gwahoddiadau dyddiadur ar gyfer y ddau ddigwyddiad sy'n gysylltiedig ag ymchwil i ddyraniadau: <ul style="list-style-type: none"> 7 Mehefin – Digwyddiad cenedlaethol i randdeiliaid yn gofyn am farn ynglŷn â'r canfyddiadau ar ddyraniadau. (HF i rannu). 8 Mehefin – Sesiwn un awr i'r Panel yn cael ei gynnal gan yr ymgynghorydd er mwyn cyflwyno canfyddiadau ar ddyraniadau, gan gynnwys sesiwn holi ac ateb. (AR i rannu). 	Ar unwaith
Carl Spiller, Pete Mackie	Trafod y data i'w casglu gan Lywodraeth Cymru ar lety dros dro, gan ystyried manteision ac anfanteision y ddwy set o ddata.	Cyfarfod nesaf, 10.05.2023
Hannah Fisher, Jennie Bibbings	Trafod cysylltu gwaith ymgynghori Llywodraeth Cymru ar ddyraniadau â gweithdy Shelter Cymru ar ddyraniadau yn eu cynhadledd flynyddol ar 20 Mehefin.	I'w chadarnhau

3. Diweddariad gan Tai Pawb

Cyflwynodd DR o Tai Pawb drosolwg o ymchwil i anghydraddoldeb ym maes tai a digartrefedd yng Nghymru yng nghyswllt pobl â nodweddion gwarchoddedig, a sut roeddent yn ymgysylltu â gwasanaethau a'r gyfraith.

Rhannwyd yr adroddiad ag aelodau'r Panel cyn y cyfarfod. Mae'n gofyn: a ellir cyflawni nod Llywodraeth Cymru o 'sicrhau bod yr achosion [o ddigartrefedd] yn brin, yn fyrhoedlog ac nad ydynt yn ailddigwydd' a 'rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn ei holl ffurfiau' heb ystyried pobl â nodweddion gwarchoddedig mewn deddfwriaeth?

Ar gyfer grwpiau penodol, fel Sipsiwn, Teithwyr, a'r gymuned LHDTC+, mae rhyngweithio â'r gyfraith, awdurdodau lleol a gwasanaethau eraill yn arwain at fwy o ffurfiau cudd o ddigartrefedd. Yn aml iawn mae angen eiriolaeth ychwanegol i gefnogi'r grwpiau hyn, ond sut allwn ni sicrhau bod y rhai hynny nad oes ganddynt eiriolwr yn cael y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen?

Sut all y gyfraith ddylanwadu ar bolisi ar lefel gyfannol yng nghyswllt tai? Mae angen i'r strategaeth ddarparu ar gyfer anghenion tai a deiliadaeth gwahanol grwpiau.

Mae'r adroddiad yn cynnwys dyfyniad grymus: "Pe bai rhywun yn cael cyfle i gamu yn ôl, edrych ar y sefyllfa a gweld beth yn union sy'n digwydd, efallai y byddai modd datrys y broblem yn gynharach." Mae cyfle gwirioneddol i ystyried sut y gall deddfwriaeth ein galluogi i edrych ar y sefyllfa yn ei chyfanrwydd yn hytrach nag ar lefel unigolion.

Ychwanegodd DR fod angen atebion i groestoriadedd cyfreithiau tai a digartrefedd, o ystyried bod cynifer o wahanol feysydd polisi, a bod rhai wedi'u datganoli.

Bu'r Panel yn trafod yr adroddiad:

- Mae'n adlewyrchu pwyntiau a godwyd gan Arbenigwyr drwy Brofiad ynglŷn â safonau tai i grwpiau sydd ar y cyrion, y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, a chodi ymwybyddiaeth o wahanol nodweddion drwy ddyletswydd newydd i ddarparu cefnogaeth.
- Codwyd yr angen am gyfathrebu hygyrch.
- Dywedodd awdurdodau lleol a gwasanaethau cymorth fod angen eiriolaeth a chefnogaeth ar gyfer grwpiau penodol sy'n wynebu annhegwch. Mae angen ymwybyddiaeth o grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.
- Mae'r adroddiad hefyd yn cefnogi'r hyn y mae'r Panel wedi'i drafod yn barod ynglŷn â: diffyg dulliau sy'n seiliedig ar drawma, prinder cyflenwad o dai, eithriadau cysylltiad lleol i gymunedau LHDTC +, a'r angen am eiriolaeth yn y pwynt mynediad neu wrth wneud cais.
- Dylai'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant gynnwys 'digartrefedd' yn ei geiriad fel bod modd ystyried hyn mewn cynlluniau gofal a chymorth. Byddai gwell eglurder yn helpu i osgoi rhagfarn gan wasanaethau cymdeithasol.
- Mae prinder tai priodol i bobl anabl gan awdurdodau lleol.
- Codwyd y cwestiwn a allai deddfwriaeth helpu i annog gwelliannau i'r stoc dai, ond nodwyd hefyd bod angen mwy o adnoddau ar gyfer hyn.
- Mae angen gwell dulliau casglu data ar lety sefydlog a dros dro er mwyn deall y stoc dai bresennol.
- Dylai gwasanaethau fod yn briodol o safbwynt diwylliannol.
- Gellid rhoi dyletswydd ar sefydliadau fel carchardai neu wasanaethau plant i atal digartrefedd i bobl sy'n gadael eu gofal, ond nododd y Panel fod natur ymyriadau cyfreithiol yn amrywio rhwng gwahanol grwpiau poblogaeth.
- Cyfeiriodd y Panel at lwyddiant yng Nghymru â Hawliau Plant. Gall y gyfraith osod safon sylfaenol a gweithredu cyn hyn er mwyn dylanwadu ar bolisi a newid diwylliant yn yr hirdymor.
- A allai'r Panel drafod sut y gall y gyfraith gefnogi darparu tai fforddiadwy a chymdeithasol? Mae Llywodraethau Cymru a'r Alban yn trafod gweithredu tai fel hawl ddynol. Yn aml iawn mae cwestiynau cyfreithiol yn dod yn ôl at adnoddau.

- Mae'r Sefydliad Materion Cymreig wedi cyhoeddi papur¹ yn nodi tai fel maes a fyddai'n elwa o fwy o bwerau benthyca. A allai'r Panel ystyried cynyddu, adolygu neu ddileu pwerau? Mae rhai awdurdodau lleol hefyd yn cael anhawster i ennyn diddordeb mewn tendrau ar gyfer cartrefi oherwydd cost llafur a deunyddiau. Hyd yn oed os oes gan awdurdodau lleol arian, er mwyn adeiladu tai o ansawdd da, mae rhwystrau ecolegol i'w goresgyn.

Aelod(au) y Panel	Cam Gweithredu	Amserlen
Jordan Brewer, Suzanne Fitzpatrick	Ychwanegu trafodaeth ar hawliau eiriolaeth at agenda Cyfarfod 10: Rheoleiddio a gorfodi.	16.05.2023, dyddiad y cyfarfod i'w gadarnhau
Liz Davies CB	Darparu cyngor cyfreithiol ar y meysydd hyn: <ul style="list-style-type: none"> • O ran y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, lle ydy'r lle gorau i atgyfnerthu cyfeiriadau at well ymwybyddiaeth o grwpiau ymylol. • Rhwystrau sy'n atal awdurdodau lleol rhag adeiladu tai newydd o ansawdd da. 	I'w chadarnhau

4. Diweddariad gan Arbenigwyr drwy Brofiad a gweithwyr rheng flaen – y system cyfiawnder troseddol a digartrefedd

a. Gweithwyr rheng flaen

Cyflwynodd KD drosolwg o bapur Rhwydwaith Rheng Flaen Cymru, sy'n crynhoi barn gweithwyr rheng flaen ynglŷn â'r system cyfiawnder troseddol a digartrefedd, a rannwyd mewn cyfarfodydd rhanbarthol ar-lein ym mis Mawrth 2023.

Dosbarthwyd y papur i aelodau'r Panel cyn y cyfarfod. Rhannodd KD rai o'r prif themâu:

Gwasanaethau cyhoeddus

- Canfyddiad cyson ar gyfer pob gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys y sectorau iechyd a chyfiawnder troseddol, yw prinder cefnogaeth sy'n seiliedig ar drawma. Mae diffyg dealltwriaeth o'r heriau y mae pobl sy'n profi digartrefedd yn eu hwynebu, o ran gallu teithio i leoedd, defnyddio systemau ac agweddau ymarferol sylfaenol eraill.
- Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae'r sector digartrefedd a chymorth tai wedi cymryd camau sylweddol tuag at fod yn seiliedig ar drawma, ond nid oes gan wasanaethau eraill yr un lefel o ddealltwriaeth. Mae angen cysondeb. Ar hyn o bryd mae risg y bydd pobl yn cael eu troi allan o wasanaeth am beidio ag ymgysylltu fel y mae disgwyl iddynt ei wneud, ond mewn gwirionedd mae hyn oherwydd nad yw'r gwasanaeth yn seiliedig ar drawma.
- Mae angen i'r Panel feddwl mwy ynglŷn â dyletswydd i gyfeirio.
- Mae pobl ifanc yn cael eu taflu yn ôl ac ymlaen rhwng gwasanaethau cymdeithasol a thai oherwydd eu hoed, ac yn syrthio rhwng craciau gwasanaethau pobl ifanc ac oedolion.
- Mae gweithwyr rheng flaen yn teimlo nad ydynt yn cael eu cymryd o ddifri ac nad yw eu harbenigedd a'u gwybodaeth yn cael eu cydnabod.
- Mae gwell rhannu gwybodaeth rhwng gwahanol wasanaethau yn hollbwysig.

¹ Gweler <https://www.iwa.wales/our-work/work/fiscal-firepower/>

Iechyd

- Mae mynediad cyffredinol at ofal iechyd sylfaenol yn broblem fawr i bobl sydd wedi profi trawma, pobl ifanc, pobl ag anabledau dysgu a phobl sy'n niwrowahanol. Mae gwasanaethau ar-lein yn fwy heriol.
- Trothwyon uchel ar gyfer mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau cymdeithasol yn atal pobl rhag cael help.
- Anawsterau yn cynnwys peidio â chael yr wybodaeth iawn o safbwynt atgyfeiriadau.
- Pobl yn cael eu troi ymaith, ac yn cael cyfarwyddyd i sortio eu defnydd o sylweddau cyn y gallant gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl, pan ddylai'r ddau beth gael eu trin gyda'i gilydd ac ochr yn ochr.
- Mae timau digartrefedd amlasiantaethol yn effeithiol. Os oes angen i unigolyn ddefnyddio'r system brif ffrwd, mae arbenigwr yno i'w helpu i ganfod ei ffordd o gwmpas y system.

Cyfiawnder troseddol

- Mae perthnasoedd cadarnhaol â'r heddlu yn y gymuned wedi'u hadeiladu.
- Mae rhyddhau o'r carchar i'r gymuned heb lety yn digwydd, ac nid yw gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn pryd i sicrhau bod cartref wedi'i drefnu yn barod ar gyfer yr adeg rhyddhau.
- Codwyd materion o bwys yn ymwneud ag asesiadau risg (a diffyg gwybodaeth) yn cael eu cyfathrebu gan swyddogion prawf i ddarparu'r cymorth.

b. Arbenigwyr drwy Brofiad

Mae'r prosiect Arbenigwyr drwy Brofiad wedi ymgysylltu â thros 300 o bobl â phrofiad personol, sy'n llawer mwy nag y credai Cymorth Cymru y byddai'n bosibl o fewn yr amserlen. Diolchwyd i Freya Reynolds-Feeney, Swyddog y Prosiect Arbenigwyr drwy Brofiad.

Dosbarthwyd papur yr Arbenigwyr drwy Brofiad ar y system cyfiawnder troseddol a digartrefedd i'r Panel cyn y cyfarfod. Rhannodd tua 70 o Arbenigwyr drwy Brofiad eu barn, ac roedd 25 ohonynt yn y carchar ar y pryd. Rhannodd KD rai o'r prif themâu:

Iechyd a gofal cymdeithasol

- Mae'n anodd cofrestru â meddyg teulu ac mae rhestrau aros hir am wasanaethau iechyd meddwl.
- Mae pobl yn methu â chael mynediad at wasanaethau oherwydd bod ganddynt broblemau iechyd meddwl a phroblemau defnyddio sylweddau yr un pryd – dywedir wrthynt am ddelio gydag un i ddechrau.
- Mae angen rhannu gwybodaeth yn well ac mae angen i asiantaethau weithio'n well mewn partneriaeth.

Addysg a gwasanaethau ieuencid

- Roedd enghreifftiau cadarnhaol o'r rôl y gallai addysg a gwasanaethau ieuencid ei chwarae wrth helpu i atal ac ymateb i ddigartrefedd, ond gellid gwneud mwy yn y cyswllt hwn.
- Mae angen mwy o ddealltwriaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, niwroamrywiaeth ac anawsterau dysgu. Mae pobl ifanc yn y grwpiau hyn yn gadael y system ysgol oherwydd trawma a diffyg cefnogaeth a dealltwriaeth, ac mae hynny'n arwain at ddigartrefedd a'r system cyfiawnder troseddol rai blynyddoedd yn ddiweddarach.
- Mae prinder addysg a hyfforddiant sgiliau ar gael i bobl ifanc ynglŷn â rheoli tenantiaeth, materion ariannol a thai.

Y system cyfiawnder troseddol: Carchardai a phrawf

Y grŵp hwn oedd yn teimlo fwyaf nad oedd yn cael sylw priodol gan systemau. Roedd pobl yn y carchar yn derbyn cyfrifoldeb am eu gweithredoedd ond yn nodi pa mor anodd oedd hi i weld

'ffordd allan' pan oeddent yn teimlo nad oedd digon o opsiynau i'w helpu i setlo mewn cartref a chael eu bywydau yn ôl ar y trywydd cywir ar ôl treulio eu dedfrydau. Roedd llawer yn teimlo eu bod wedi cael eu dal mewn cylch o ddigartrefedd a'r system cyfiawnder troseddol.

Mae'n hawdd iawn i bobl sydd ag anawsterau dysgu, anableddau dysgu neu niwroamrywiaeth gael eu hecsbloetio, ac mae'n hawdd iawn iddynt wneud camgymeriadau a methu â chanfod eu ffordd o gwmpas y system. Cyfeiriwyd yn aml at eiriolaeth i helpu pobl i gael cymorth â materion tai.

Ymuno â'r system cyfiawnder troseddol a chyfnod yn y carchar:

- Weithiau mae mynd i'r carchar yn arwain at golli eich cartref. Rhoddodd yr arbenigwyr drwy brofiad enghreifftiau o rai landlordiaid yn y sector cymdeithasol a phreifat a oedd yn gyndyn o helpu, yn rhoi pwysau, ac yn defnyddio bygythiadau cyfreithiol i gael unigolion i roi'r gorau i'w tenantiaethau. Roedd llawer o bobl yn wynebu problemau wrth geisio rheoli ôl-ddyledion rhent a chostau tai tra oeddent yn y carchar.
- Gellid darparu gwell cefnogaeth ac arweiniad, gan gynnwys ynglŷn â hawliau tai carcharorion a sut i ddefnyddio'r system fudd-daliadau.
- Dywedodd llawer eu bod wedi colli eiddo o'r cartref y gwnaethant ei adael ar ôl wrth fynd i'r carchardai. Roedd hyn yn cael effaith seicolegol a thrawmatig ac yn ychwanegu at eu hanawsterau wrth iddynt geisio ailadeiladu eu bywydau a'u hunaniaeth ar ôl cael eu rhyddhau.
- Roedd llawer o bobl yn wynebu anawsterau wrth geisio rheoli ôl-ddyledion rhent a chostau tai tra oeddent yn y carchar.
- Roedd diffyg mynediad at gymorth iechyd, yn enwedig cymorth iechyd meddwl, yn broblem. Dywedodd pobl fod eu hiechyd yn effeithio ar eu sefyllfa dai pan oeddent yn cael eu rhyddhau. Er hyn, gallai rheoli iechyd tra mewn sefydliad diogel helpu i atal digartrefedd.
- Bwriadwyd i'r Llwybr Carchardai fynd i'r afael â materion tai carcharorion pan fyddant yn cyrraedd y carchar, ond mae rhywbeth heb gael ei gydgyssylltu, ac nid yw hyn yn digwydd. Mae angen ymdrin ag anghenion tai pan fydd y carcharor yn cyrraedd y carchar, yn unol â bwriad y Llwybr Carchardai, ac yn llawer cynharach nag sy'n digwydd ar hyn o bryd. Roedd y storïau cadarnhaol yn cynnwys rhyddhau i garchardai lefel is ac unedau ailsefydlu, gwneud trefniadau ar gyfer cyflogaeth a byw'n annibynnol cyn rhyddhau.

Tai adeg rhyddhau:

- Cyfeiriodd yr arbenigwyr drwy brofiad at ddiffyg cyfathrebu go iawn rhwng awdurdodau lleol a gwasanaethau prawf a charchardai. Mae pobl wedi cael eu rhyddhau â phabell fel llety, neu maent yn teimlo nad oes ganddynt unrhyw ddewis ar wahân i gyflawni troseddau yn gyfnewid am aros ar soffa.
- Mae rhyddhau o'r carchar ar ddydd Gwener yn anodd gan fod hyn yn golygu nad oes gan yr awdurdod lleol lawer o amser i sicrhau llety cyn y penwythnos.
- Yn aml iawn rhoddir llety brys neu dros dro amhriodol, er enghraifft, llety 'gwlyb' anaddas neu yn bell o fferyllfeydd neu apwyntiadau prawf.

Ar ôl rhyddhau:

- Dylai cefnogaeth barhaus gan gymheiriaid (gweithwyr cefnogol) barhau ar ôl rhyddhau.
- Nid yw pobl sy'n treulio dedfrydau hwy wedi cael eu paratoi'n dda, pan maent yn cael eu rhyddhau, i ddefnyddio technoleg a chael mynediad at wasanaethau.
- Mae pobl yn cael anhawster i ganfod eu ffordd o gwmpas y system brawf oherwydd systemau anhyblyg a diffyg darpariaeth sy'n seiliedig ar drawma. Mae asesiadau risg sy'n

cael eu cynnal gan y gwasanaeth prawf yn tarfu neu gallant arwain at ganslo llety ar rent yn y sector preifat.

Profion digartrefedd:

- Teimlid bod asesu angen blaenoriaethol dan y Ddeddf Tai yn seiliedig ar deimladau personol, yn hytrach na bod wedi'i warantu, a bod bregusrwydd yn ffactor tyngedfennol.
- Dylid dileu bwriadoldeb.
- Nid yw systemau a chyfyngiadau awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol yn gyson o ran cysylltiad lleol ac mae problem o ran rhannu gwybodaeth. Mae angen i gysylltiad lleol fod yn fwy hyblyg er mwyn sicrhau diogelwch pobl a sicrhau nad yw rhywun yn cael ei demtio i aildroseddu wrth fod yn ôl mewn ardal benodol.

Y system cyfiawnder troseddol: Yr heddlu

- Gall ymyriad yr heddlu fod yn negyddol o ganlyniad i weithredu aneffeithiol, er enghraifft roedd aros am asesiad risg ar eiddo yn golygu bod un o'r bobl yr ymgynghorwyd ag ef wedi colli'r bond yr oedd wedi ei roi ar eiddo. Mae diffyg dyletswydd i ofalu ac empathi, yn enwedig yng nghyswllt y rhai hynny sy'n ddigartref ac mewn argyfwng oherwydd iechyd meddwl gwael a/neu'n agored i niwed.
- Mae pobl sy'n profi digartrefedd yn aml yn cael eu troseddoli, yn enwedig os ydynt yn cysgu allan.
- Nid yw pobl ddigartrefedd sy'n ddiodefswyr troseddau yn cael yr un driniaeth a help gan yr heddlu, o gymharu ag aelodau eraill o'r cyhoedd. Roedd y rhai yr ymgynghorwyd â hwy, mewn rhai achosion, yn teimlo bod stigmatiddio yn gysylltiedig â hil.

c. Ymatebion y Panel

Ymatebodd y Panel i gynodebau KD o'r prif themâu a godwyd gan weithwyr rheng flaen a phobl sydd â phrofiad personol mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol a digartrefedd:

- Roedd ymchwil 'Hard Edges' yn yr Alban yn codi pwyntiau tebyg, ond mae'r system cyfiawnder troseddol yn teimlo fel pe bai mewn sefyllfa lawer gwell nag yng Nghymru. Yn yr Alban, roedd gweithwyr cymdeithasol cyfiawnder troseddol yn cael eu nodi fel grym cadarnhaol, yn cynnig dull gweithredu cyfannol a dylanwad sefydlog.
- Yn ystod y broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y grŵp hwn o bobl gwelwyd eu bod yn teimlo bod pobl yn 'disgwyl iddynt fethu' oherwydd eu bod yn agored i niwed a heb gefnogaeth. Nid yw'r grŵp penodol hwn yn gwybod beth yw ei hawliau ac mae eiriolaeth yn bwysig.
- Er bod yr ystadegau'n awgrymu bod gan bobl sy'n gadael y system lety diogel, o dan yr wyneb mae'r llety hwnnw dros dro, felly nid yw'n ddiogel yn hir iawn.
- Nid yw'r gwaith o gynllunio ar gyfer sicrhau llety ar ôl rhyddhau yn diwallu anghenion ar hyn o bryd, ac mae angen iddo ddigwydd yn gynharach, yn ddelfrydol â chydlynedd allweddol. Mae pobl yn cael eu lleoli mewn llety dros dro, sy'n groes i'w hamodau rhyddhau, a hynny'n aml oherwydd bod yr awdurdod lleol yn methu'n glir â chael llety iddynt. Mae pobl sy'n gadael y carchar yn debygol o gael eu gwahardd rhag cael llety cymdeithasol am hyd at ddeng mlynedd.
- Roedd y Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr yn welliant ar bapur, ond arweiniodd at leihad dramatig mewn swyddogion prawf.
- Daeth y gwaith o fewn y llwybr yn ddibynnol ar atgyfeiriadau a wnaethpwyd yn y ddalfa. Mae pobl sydd yn y ddalfa'n derbyn llawer llai o gefnogaeth ac yna'n cael eu trosglwyddo i awdurdodau lleol ar fyr rybudd neu heb unrhyw rybudd. Mae angen i ddeddfwriaeth sicrhau bod pobl yn cael lefel briodol o gefnogaeth tra maent yn y ddalfa.

- Nid yw cell carchar yn llety addas, felly gall unigolyn wneud cais am gymorth digartrefedd unrhyw bryd yn ystod ei ddedfryd. Fodd bynnag, nid yw 56 diwrnod cyn rhyddhau o unrhyw fudd. Mae'r llwybr yn gofyn i'r gwasanaeth ailsefydlu gasglu'r ceisiadau hynny 10 diwrnod yn gynharach, 66 diwrnod cyn rhyddhau, ond nid yw hynny'n hanner digon o amser ychwaith.
- Gofynnodd y Panel: Os ydym wedi'n cyfyngu o ran y cymorth y gellir ei roi i bobl yn y ddalfa, pryd yw'r amser gorau i roi cymorth? Pryd ddylai'r ddyletswydd liniaru ddechrau os nad ar ôl 56 diwrnod? A yw'r ddyletswydd â therfyn amser i bobl sydd yn y ddalfa yn addas?
- Nid oes unrhyw beth yn y gyfraith yn dweud y dylai awdurdodau lleol ddal i gyflawni eu dyletswydd ar ôl y 56 diwrnod. Argymhellodd y Panel y dylid cynyddu hyn i 6 mis.
- Dylai atal ddiwydd yn syth ar ôl cyrraedd y ddalfa. Byddai'r carchardai yng ngwasanaeth Cymru yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru i gyflawni'r ddyletswydd hon. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys ymrwymiad i gefnogi unigolion i gadw llety drwy gael ddefnyddio eu hawl i fudd-daliadau (dedfrydau tymor byr) neu gynnig cefnogaeth i adael tenantiaethau rhag crynhoi ôl-ddyledion rhent (y gwyddys ei fod yn rhwystr wrth adael y ddalfa).
- Gall polisïau tai cymdeithasol greu rhagor o rwystrau i rai sy'n gadael y carchar wrth geisio cael mynediad at dai.

5. Trafodaeth ar y prif rwystrau o ran tai a wynebir gan bobl sy'n gadael y system cyfiawnder troseddol y gellir rhoi sylw iddynt drwy deddfwriaeth dai greiddiol a dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus ehangach.

Trafododd y Panel y sefyllfaoedd sy'n dod i'r amlwg ac argymhellion ar gyfer diwygio, yn ymwneud ag a) deddfwriaeth ddigartrefedd greiddiol a b) dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus ehangach, â'r nod o geisio cael consensws ar yr argymhellion.

Dywedodd y Cadeirydd fod gan bobl sy'n gadael y system cyfiawnder troseddol yn aml iawn anghenion cymhleth a bod hwn yn faes pwysig ar gyfer diwygio. Mae angen i'r drafodaeth arwain at argymhellion pendant, yn enwedig os oes ar y Panel eisiau mynd i'r afael â chysgu allan, fel pen mwy eithafol digartrefedd.

Roedd y Panel y cytuno y dylent gael blaenoriaeth - "rhoi mwy o flaenoriaeth i adsefydlu nag i gosbi."

Pwysleisiwyd nad yw'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys carchardai, wedi'i datganoli yng Nghymru. Rhaid i'r Panel gadw mewn cof, er y gellid gwneud argymhellion ar gyfer dyletswyddau ar garchardai – er enghraifft, nodi risg a llety (gofyn a gweithredu), atal, lliniaru, ac ati – efallai na fydd yn realistig i osod dyletswyddau newydd neu ddiwygiedig â rheolaeth gyfyngedig Llywodraeth Cymru dros adnoddau carchar heb gytundeb y Swyddfa Gartref. Os bydd y Panel yn newid cyfraith yng Nghymru, rhaid i Gymru ddarparu'r adnoddau.

a. Deddfwriaeth digartrefedd greiddiol

Llwybr carchardai

- Er ei fod wedi dyddio braidd, mae rhywfaint o arferion da yn dod o'r llwybr carchardai. Y bwriad oedd nodi'n glir, lle'r oedd asesiad yn digwydd tra oedd rhywun yn y ddalfa, os oedd yr unigolyn yn dal yn ddigartref pan fyddai'n cael ei ryddhau, y byddai'n gymwys ar gyfer asesiad newydd ar sail newid mewn amgylchiadau.
- Mae amseriad yn hollbwysig er mwyn gweithredu'r llwybr yn llwyddiannus. Gallai'r Panel argymhell bod hyn yn cael ei ddiwygio ac ystyried ei wneud yn statudol, wedi ei atgyfnerthu drwy reoliadau.

- Mae canllawiau ac ymarfer da NICE yn dangos gwerth cefnogi cynllunio llwybrau carcharorion lleol, a hynny'n cael ei gefnogi gan ddyletswydd i gydweithredu a fydd yn cynnwys prawf.
- Fodd bynnag, nododd y Panel fod rhai awdurdodau lleol yn cael anhawster i ddilyn y llwybr os nad oes ganddynt garchar yn eu sir, gan na allant ymweld ag ef yn hawdd.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i edrych ar y llwybr. Cynhelir y gweithdy cyntaf yr haf hwn i ddechrau'r broses.

Atal a phrif ddyletswydd

- Nid oedd yn glir i'r Panel a yw'r ddyletswydd atal neu liniaru yn helpu pobl yn y carchar sy'n ddigartref neu a fydd yn mynd yn ddigartref. Gellid gwneud y gwahaniaeth hwn yn gliriach – dylai carcharorion fod o dan y ddau.
- Gall dyletswyddau atal gael eu cymhwyso gan staff sy'n bresennol pan fydd unigolyn yn cyrraedd y carchar, ond bydd dyletswydd liniaru yn gymwys pan fydd rhywun mewn cell carchar. Dylai awdurdodau lleol fod â dyletswydd i ddarparu yn llawn ar gyfer unigolyn.
- Y brif ddyletswydd yw darparu llety dros dro, yn cael ei chyflawni drwy lety sefydlog. Y tri cham yw: dyletswydd atal, derbyn y brif ddyletswydd, a chyflawni'r brif ddyletswydd. Dylid cael adran benodol ar gyfer pobl sydd yn y carchar ag argymhellion cyfreithiol penodol sy'n wahanol i'r rhai ar gyfer grwpiau eraill.
- Awgrymodd y Panel y dylid cymhwyso amodau penodol fel rhan o'r ddyletswydd atal ynglŷn â chymau y mae angen eu cymryd pan fydd unigolyn yn cyrraedd y carchar. Byddai hyn hefyd yn briodol ar gyfer canllawiau.
- Her fawr i Prison Link Cymru yw darpariaeth gwasanaeth timau ailsefydlu carchardai a nifer isel y staff. Mae Prison Link Cymru i bob pwrpas yn hybu'r hyn y mae carchardai i fod i'w wneud yng nghyswllt ailsefydlu. Mae angen i'r Panel gadw eu hadnoddau mewn cof os yw'n creu dyletswydd yn ymwneud â phobl yn derbyn cyngor ar yr adeg y maent yn mynd i'r ddalfa.
- Trafododd y Panel ddiwygio'r diffiniad cyfreithiol o fod yn ddigartref er mwyn egluro'n glir bod hyn o'r adeg y mae unigolyn yn cyrraedd cell carchar. Penderfynodd y Llys Apêl 20 mlynedd yn ôl nad yw cell carchar yn 'llety' at ddibenion digartrefedd, felly mae bob amser yn ddyletswydd liniaru, hyd yn oed pan mae'r unigolyn yn y carchar. O ganlyniad, mae angen bodloni cais digartrefedd ac mae angen prif ddyletswydd – â rhywbeth ar adeg rhyddhau o'r carchar – os yw'r Panel yn ystyried argymhell diddymu'r ddyletswydd liniaru.
- Yn fwyaf penodol, nid oes dim i'w ennill drwy ymestyn y ddyletswydd atal o 56 diwrnod i chwe mis i helpu pobl sydd yn y carchar, gan nad dyma'r ddyletswydd sy'n cael ei chymhwyso ac ni fydd yn cael unrhyw effaith arnynt.
- Gallai'r Panel wneud argymhelliad i egluro pa ddyletswydd a phryd.

Cadw tenantiaethau tra yn y carchar

- Ar gyfer y rhai sy'n treulio dedfrydau byrrach, gellid sicrhau llety tra'n osgoi ôl-ddyledion rhent. Gellid cynorthwyo pobl i wneud trefniadau â theulu neu sicrhau eu bod wedi cael y budd mwyaf o elfen dai Credyd Cynhwysol (mae gan garcharor 13 wythnos ar ôl cael ei ddedfrydu a 52 wythnos pan fydd ar remand). Byddai unrhyw ffordd arall o sicrhau bod pobl yn cadw llety, ac nad ydynt yn ei golli oherwydd ôl-ddyledion rhent, yn golygu argymhelliad bod rheolau Credyd Cynhwysol yn cael eu hymestyn.
- Mae ar awdurdodau lleol angen bondiau, rhent ymlaen llaw a chymorth ariannol ychwanegol am chwe mis ar gyfer pobl sydd yn y carchar. Gellid cyflwyno cymorth gan awdurdodau lleol er mwyn cadw tenantiaethau ac mae'n bosibl y byddai'n dod o fewn canllawiau statudol ar gyfer y grŵp hwn. Awgrymodd y Panel y gallai'r awdurdod lleol weithredu fel gwarantwr.

Anabledd

- Mae dyraniad ar gyfer pobl sydd ag anabledd corfforol yn anodd iawn, gan fod angen i lety fod wedi'i addasu a bod yn addas iddyn nhw. Bydd therapydd galwedigaethol yn cynnal asesiad, ond pwy sy'n gyfrifol am hynny, yr awdurdod lleol o'r sir lle'r oedd yr unigolyn yn byw ynteu o'r man lle troseddodd yr unigolyn?
- Bydd asesiad carchar yn wahanol i asesiad a wnaethpwyd gartref.

Hawliau ac eiriolaeth

- Roedd yr Arbenigwyr drwy Brofiad yn credu'n gryf y byddai'r grŵp hwn yn elwa o gael gwybod am eu hawliau a chael cymorth eiriolwr.
- Mae deddfwriaeth arall yn amlinellu'n glir y prif bobl a fydd yn ymwneud ag asesiadau, a gallai hyn fod yn neddfwriaeth y Ddeddf Tai hefyd.

Polisiau dyrannu

- Nid oes dim mewn cyfraith dyraniadau sy'n atal pobl sydd yn y carchar rhag cael eu cofrestru ar restrau tai cymdeithasol tra maent yn dal yn y carchar. Mae camddealltwriaeth ynglŷn â hyn yn aml.
- Mae cynifer o bobl o'r grŵp hwn sy'n teimlo na allant wneud cais am dai cymdeithasol. A ellid ychwanegu rhywbeth at y canllawiau i wneud hyn yn fwy hyblyg.
- Cadarnhaodd un aelod o'r Panel sy'n cynrychioli awdurdod lleol na fyddent yn atal unigolyn sydd yn y carchar rhag ymuno â'r gofrestr dai, ond mae'n bosibl y byddai rhai pobl yn cael eu gwahardd rhag ymuno â'r rhestr dai am gyfnod penodol oherwydd risgiau diogelwch ac er mwyn amddiffyn dioddefwyr. Mae pobl yn cael eu cyfeirio tuag at y sector rhentu preifat er mwyn profi newid mewn ymddygiad.
- Efallai y byddai'r Panel yn hoffi argymhell bod gwaharddiadau rhag ymuno â'r gofrestr dai yn cael eu hosgoi.
- Er y byddai'n dda o beth pe bai gan awdurdodau lleol eiddo wedi'i roi o'r neilltu ar gyfer pobl sy'n cael eu rhyddhau, nid yw cartrefi gwag yn ddelfrydol. Rhaid i awdurdodau lleol hefyd feddwl am incwm a gollir drwy eiddo gwag. Ar adeg pan mae'r stoc dai yn brin, nid yw hyn yn ymarferol.
- Nodwyd y gall aelodau etholedig roi mwy o bwysau ar osgoi cartrefu rhai sy'n gadael y carchar yn eu hardal leol os oes ganddynt hanes o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mynegi pa fath o lety a ffefrir

- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn nodi na all carcharorion fynegi eu bod yn ffafrio llety penodol tra maent yn cael eu cadw'n gaeth mewn carchar neu lety cadw ieuencid neu'n preswyllo mewn mangre a gymeradwywyd.
- Byddai cynnwys rhywun yn y sgysiau hyn am dai a Chynllun Tai Personol yn eu grymuso ac yn atal y stigma a'r teimlad o fethu â gwneud dim.
- Mae unigolion yn cael eu rhyddhau o'r carchar i'r ardal lle maent wedi troseddu, nid i ardal eu cysylltiad lleol. Mae pobl yn cael eu gorfodi i fyw mewn lleoedd lle nad oes arnynt eisiau bod. A allai fod yn realistig i ofyn i bobl cyn iddynt gael eu rhyddhau ble byddent yn hoffi byw?

Eiddo Llety Mechnïaeth a Gwasanaethau Cymorth

- Pan gaiff llety ei adolygu ar wahanol lefelau o frys mewn cyfarfodydd trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd (MAPPA), mae awdurdodau lleol a swyddogion carchar i gyd dan bwysau ac mae hyn yn achosi tensiwn.
- Yr hyn a ddaeth drosodd yn gryf iawn gan bobl sy'n cael eu lleoli mewn mangreoedd a gymeradwywyd neu lety mechnïaeth a gwasanaethau cymorth yw ei fod bob amser yn lleoliad dros dro a bod eu cam nesaf ar gyfer llety sefydlog ar goll yn llwyr. Gellid diystyru'r

llety mechniaeth a gwasanaethau cymorth neu fangreoedd a gymeradwywyd fel ateb llety gan nad yw'n sefydlog.

Cysylltiad lleol

- Mae'r cyfreithiau cysylltiad lleol presennol yn achosi llawer o broblemau i bobl sy'n gadael y carchar. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y gellid gwneud cysylltiad lleol yn fwy hyblyg.
- Gallai'r Panel argymhell eithrio rhai sy'n gadael carchar o gysylltiad lleol a rhoi mwy o eglurder i awdurdodau lleol. Neu yn hytrach nag eithrio, bod yr awdurdod lleol yn ystyried pob achos yn unigol pan fydd cais yn cael ei wneud. Gallai'r Panel lunio rhestr arweiniol o eithriadau ar gyfer awdurdodau lleol i'w dilyn yn eu hargymhellion.
- Mae angen i wasanaethau prawf fod yn fodlon ynglŷn â ble mae pobl yn cael eu rhyddhau o'r carchar. Dylid defnyddio dull cyfannol o asesu, gan ystyried penderfyniadau i helpu unigolyn i lwyddo, yn hytrach nag edrych arno fel asesiad risg.

Tai yn Gyntaf

- Mae angen mwy o gyllid ar gyfer darpariaeth Tai yn Gyntaf i bobl sy'n gadael y carchar ac mae angen iddo gael ei gefnogi gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a landlordiaid awdurdodau lleol er mwyn cyflawni'r nodau a nodwyd gan y Panel. Mae hyn yn unol â'r modelau Sgandinafaidd llwyddiannus.

b. Dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus ehangach

Asesiadau

- Gallai deddfwriaeth fod yn fwy cadarn ar gyfer asesiadau a gynhelir ar ôl i'r unigolyn fynd i'r carchar, a fydd yn cynnwys y rhai sydd ar remand ac yn treulio dedfrydau byr, gan bwysleisio mwy o waith amlasiantaethol.
- Mae angen cynnal asesiadau gryn dipyn o amser cyn rhyddhau carcharorion, ac mae angen cynnwys gweithwyr rheng flaen er mwyn deall anghenion sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, iechyd, therapi galwedigaethol a chymorth ariannol.

Rhyddhau o'r carchar

- Mae rhyddhau ar ddydd Gwener, Gwyliau'r Banc a chyfnodau o wyliau yn anodd iawn. Does dim llawer o siawns i bobl lwyddo ar y diwrnodau hyn, â chymaint o brinder staff a phrinder stoc gan awdurdodau lleol.
- Nid yw dyddiadau rhyddhau yn syndod i sefydliadau carchar, felly pam y dylen nhw fod felly i awdurdodau lleol? Os yw'r cyfathrebu'n digwydd, gallai gweithwyr achos fod yn eu lle i sicrhau bod trefniadau gweithredu'n cael eu gwneud.

Hysbysu awdurdodau lleol am garcharorion sy'n cael eu galw'n ôl

- Mae angen hysbysu awdurdodau lleol cyn gynted ag y bo modd ynglŷn â phobl sy'n cael eu galw'n ôl i'r carchar, oherwydd pan nad yw hyn yn digwydd maent yn crynhoi ôl-ddyledion rhent heb i'r awdurdod lleol wybod nad ydynt yn yr eiddo.
- Mae angen deall pam y mae pobl yn cael eu galw'n ôl a beth y gellid ei wneud yn y gymuned er mwyn atal hyn.
- Mae'n gymhleth ac yn anodd i ganfod cartref i droseddwr rhyw cofrestredig, oherwydd yn aml iawn mae angen symud i ardal arall am resymau yn ymwneud â diogelwch ac anonymedd.

Dyletswydd i gydweithredu

- Awgrymodd aelod o'r Panel fod anghydbwysedd pŵer rhwng timau digartrefedd ac opsiynau tai a'u cydweithwyr yng Ngwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi. Mae awdurdodau lleol yn gweld y broses o ddod o hyd i lety addas a chael eu gwrthod gan y system gyfiawnder troseddol yn anodd iawn. Yn y pen draw mae hyn yn cadw pobl mewn llety dros dro ac mewn amgylchiadau niweidiol.
- Dylai'r ddyletswydd i gydweithredu fod yn gyfrifoldeb ar eraill i aros gyda gwasanaethau digartrefedd i ddod o hyd i ateb i'r broblem gyda'i gilydd.
- Mae problemau diwylliant yng nghyswllt prawf ac awdurdodau lleol y mae angen rhoi sylw iddynt. Ni ddylai galw unigolyn yn ôl i'r carchar gael ei weld fel 'llwyddiant tymor byr' i dimau digartrefedd, dim ond oherwydd bod hynny'n rhoi mwy o amser iddynt.

Yr heddlu

- Mae'n hollbwysig bod yr heddlu yn gofyn a gweithredu er mwyn atal, cyfeirio pobl, a chydweithredu i rannu gwybodaeth berthnasol â gwasanaethau eraill. Mae gwasanaeth yr heddlu yn adnodd pwysig ac mae angen dod ag ef i'r ddyletswydd i gydweithredu a'r ddyletswydd i gyfeirio.
- Mae angen gwella capasiti, empathi, dealltwriaeth a hyfforddiant ar ddull gweithredu sy'n seiliedig ar drawma er mwyn sicrhau profiad mwy cadarnhaol gan wasanaethau'r heddlu.

Gwasanaethau cymdeithasol

- Dylai tai fod yn rhan o raglenni hyfforddiant gwasanaethau cymdeithasol. Byddai gweithwyr cymdeithasol yn elwa o leoliadau ym maes tai.

Aelod(au) y Panel	Cam gweithredu	Amserlen
Liz Davies CB	<p>Darparu cyngor cyfreithiol:</p> <ul style="list-style-type: none">• A allai cyfraith cynllunio helpu i fynd i'r afael â phroblemau cyflenwad.• A all pobl sydd yn y carchar fynegi eu bod yn ffafrio llety penodol?• Ynglŷn â'r ddyletswydd i gyfeirio, y ddyletswydd i gydweithredu, a dull gweithredu amlasiantaethol.• Ynglŷn â chadw llety presennol unigolyn ar ôl iddo gael ei gadw ar remand neu ei ddedfrydu.• Ystyried pryd mae'r ddyletswydd atal yn newid i fod yn ddyletswydd liniaru.• Beth sy'n digwydd yn ystod y ddyletswydd atal, gan gynnwys: asesu angen (wrth fynd i'r carchar?); Cynllun Tai Personol a llais/hawliau carcharor; cydlynedd allweddol; adolygu asesiad a chynllun tai personol pan fydd amgylchiadau'n newid; ar drothwy rhyddhau; cadw llety presennol; cynllunio ar gyfer llety ar ôl rhyddhau.• Pobl sydd yn y carchar – a ydynt yn ddigartref neu'n wynebu bygythiad o fod yn ddigartref?• Stewart v Lambeth, R (B) v Southwark.	I'w chadarnhau

	<ul style="list-style-type: none"> • Sut mae diddymu'r ddyletswydd liniaru yn effeithio ar ddyletswyddau atal? • Dod â'r brif ddyletswydd dai i ben – sut i helpu os yw'n drefniant anffurfiol, er enghraifft â theulu. • Diddymu bwriadoldeb yn y gyfraith bresennol. • Cysylltiad lleol a sut y gellid newid hyn i bobl sydd yn y carchar. • Dileu angen blaenoriaethol • Cynllun llwybr a rhwymedigaeth gyfreithiol. • Cymorth ar ôl rhyddhau • Ceisio cael llety sefydlog yn hytrach na chyflawni'r brif ddyletswydd dai. • Edrych ar lety mwy hirdymor i rai sy'n gadael carchar, gan gynnwys dyraniadau ac eithrio o'r gofrestr dai; cynghorwyr yn gwneud penderfyniadau; polisïau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. • Ystyried sut y gallai hyn ffitio i mewn â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, is-adrannau 185 – 188, a ffafrio llety penodol. 	
Peter Mackie	Rhannu'r model Sgandinafaidd ar Dai yn Gyntaf a charcharorion â'r Panel.	Ar unwaith
Hannah Fisher, Carl Spiller	Hysbysu'r Panel ynglŷn â manylion atal rhyddhau o'r carchar ar ddydd Gwener pan fydd yr wybodaeth yn hysbys.	I'w chadarnhau
Suzanne Fitzpatrick, Jordan Brewer	Ychwanegu trafodaeth ar faterion penodol ar gyfer pobl â risg uwch (troseddwr rhyw, llosgwyr) at agenda Cyfarfod 5.2: Dyraniadau a throi allan.	Canol mis Mehefin
Suzanne Fitzpatrick, Jordan Brewer	Neilltuo lle mewn cyfarfod yn y dyfodol ar gyfer trafodaeth arall ar y prif themâu a nodwyd o'r holl gyfarfodydd hyd yn hyn.	I'w chadarnhau
Pawb	Aelodau'r Panel i dynnu sylw Crisis at unrhyw feysydd i ailedrych arnynt sydd ar goll o'r rhestr o drafodaethau ar gyfer y dyfodol.	Ar unwaith

6. Unrhyw fater arall

Diolchodd JB i'r Panel am drafodaeth lawn, a fydd yn bwydo i mewn i'r cyfarfod argymhellion a gynlluniwyd ar gyfer 16 Mehefin.

Yr amserlen ar gyfer cyfarfodydd ychwanegol:

- Llety dros dro ac addasrwydd – 10 Mai
- Dyraniadau a throi allan – i'w gadarnhau
- Rheoleiddio a gorfodi – i'w gadarnhau

Hysbyswyd y Panel ynglŷn â'r sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhelir cyn bo hir gan Crisis ar 23 Mai a 6 Mehefin.

Cadarnhaodd y Cadeirydd bod cryn dipyn o waith i'w wneud eto yn y cyfarfodydd sydd ar ôl. Anogwyd aelodau'r Panel i gynnig unrhyw farn arall ynglŷn â'r cwestiynau arweiniol o gyfarfod heddiw. Diolchwyd i'r Panel am ddod i'r cyfarfod wedi paratoi cystal ac â syniadau pendant i symud pethau yn eu blaenau. Diolchwyd hefyd am y mewnbwn arbenigol ychwanegol gan CS ac AM.

Aelod(au) y Panel	Cam gweithredu	Amserlen
Abi Renshaw	Dadansoddi'r pleidleisiau Doodle a chanfod dau ddyddiad ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol yng nghanol mis Mai ac yn niwedd mis Mehefin ar gyfer Cyfarfod 10: Rheoleiddio a gorfodi a Chyfarfod 5.2: Dyraniadau a throi allan.	Ar unwaith
Jordan Brewer, Abi Renshaw	Ailddosbarthu manylion dau gyfarfod ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhelir yn y dyfodol gan Crisis (23 Mai a 6 Mehefin).	Cyn gynted ag y bo modd
Pawb	Aelodau'r Panel i rannu gwahoddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid gan Crisis ar grynodedeb o waith y Panel Adolygu Arbenigol gyda'u rhwydweithiau.	Cyn gynted ag y bo modd
Pawb	Aelodau'r Panel i anfon unrhyw farn arall ynglŷn â chwestiynau arweiniol heddiw at Crisis.	Cyn gynted ag y bo modd
Pawb	Aelodau'r Panel i ddiweddarau AR ynglŷn â'u gofynion deiet, yn barod ar gyfer y cyfarfod wyneb yn wyneb yng Nghaerdydd ar 16 Mehefin.	Ar unwaith

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Zoom ddydd Mercher 10 Mai 2023.